CHAPTER

---

# Jenő Davies a Iolo Walker mewn sgwrs â Sim Panaser, Curadur Celf Weledol Chapter, Mehefin 2025.

**Mae'r gweithiau yn yr arddangosfa wedi'u hysbrydoli gan eich dychweliad i Gymru, yn benodol Machynlleth, ym Mhowys, lle rydych chi'n byw ac yn gweithio. Sut mae cefn gwlad wedi siapio eich arferion a'r corff yma o waith?**

**Jenő:** Cefais fy magu mewn rhan anghysbell o Sir Gâr. Roedd y dyffryn oedd yn ymdebygu i siâp powlen yn fyd cyfan, yn ficrocosm gyda set o gymeriadau, creaduriaid a chyfuchliniau, bywyd a marwolaeth, cydfodolaeth a gwrthdaro. Rwy'n credu bod y profiad yma wedi dylanwadu'n sylweddol ar fy agwedd at greu celf. Rwy'n teimlo bod rheidrwydd arna i i greu gwaith mewn cyd-destun gwledig oherwydd fy mod i'n credu ei fod yn cynnwys cymaint o gwestiynau, gwrthddywediadau yn ogystal â chysur a'r cyfarwydd.

**Iolo:** Cefais fy magu yn Nwyrain Llundain, mae'r ddinas yn dylanwadu'n fawr arna i. Ar ryw adeg fe es i'n sâl, ac roeddwn i am ddychwelyd i Gymru i brosesu rhywfaint o alar. Mae'r rhan fwyaf o fy nheulu wedi symud yn ôl i Gymru erbyn hyn. Mae'r amgylchedd wedi bod yn ddylanwad mawr ar fy ngwaith erioed; rwy'n tueddu i wyro tuag at y dŵr. Rwy'n mwynhau'r profiad uniongyrchol o'r tymhorau yng nghefn gwlad. Nid yw'r adeiladau uchel yn colli eu dail.

**Soniwch wrthon ni am arwyddocâd y teitl sy'n dod â dau syniad at ei gilydd – palisâd, sef rhwystr pren a'r blodyn erwain.**

**Iolo:** Roedden ni am greu math o amddiffynfa sy'n teimlo fel waliau tŷ neu rywle caeedig sydd wedi'i ddal rhywle rhwng gwahoddiad i groesi trothwy a gwarchod rhag bygythiadau canfyddedig gyda chathod a phethau eraill cyfarwydd yn cadw llygad. Mae ein gwaith blaenorol wedi cael ei ddylanwadu gan fethodolegau gweithredu uniongyrchol, meddiannu tir, gweithdai, a sinema gerila. Roedden ni'n chwarae gyda'r syniad o gynnwys blocadau yn y sioe. Mae gan gefn gwlad rhyw hunaniaeth ddelfrydol, sy'n cael ei defnyddio i gynnal canfyddiadau o genedlaetholdeb, hil a dosbarth. Mae Meadowsweet yn gyfeiriad at Y Mabinogi a Blodeuwedd, sydd wedi'i chreu allan o flodau gan gynnwys erwain.

Mae eich ffilm Pinwydd yn ail-gread o'r chwedl Blodeuwedd. Gan ddefnyddio themâu ffantasi, adrodd straeon ffuglen wyddonol a sinema rydych chi wedi creu bydysawd sy'n siarad am obeithion a dyheadau am fydoedd gwell. Mae eich ffilm yn dychmygu dewisiadau amgen i gyfalafiaeth, ac mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ffordd rydych chi wedi'i chreu. Allwch chi sôn mwy wrthon ni am wleidyddiaeth y byd rydych chi wedi ei adeiladu, a'ch dull DIY o greu'r ffilm?

**Iolo:** Fe wnes i ddechrau meddwl am syniadau am or-wrthrychau, gwrthrychau traws-ddimensiwn sydd â miliynau o gynrychiolaethau, fel petrocemegion, newid hinsawdd, plastigau. Roedden ni am greu cymeriadau a fyddai'n cynrychioli'r gwrthrychau yma mewn ffordd alegorïaidd. Felly, fe wnaethon ni benderfynu ar Mr Candy, ein halegori gyfalafol neo-ganoloesol, yna rhyfel gyda Blod, a chymeriadau i gynrychioli cnydau sef Oen (hwsmonaeth anifeiliaid, cig) a Pin (coedwigaeth, coed).

Mae sinema'n aml yn cael ei chreu mewn ffordd hierarchaidd, ac roedden ni'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ffilmiau a gafodd eu cynhyrchu ar sail strwythurau mwy llorweddol. Roedden ni am gynhyrchu ffilm oedd â manteision ecolegol, cymdeithasol a hanesyddol, a mytholegol. Fe wnaethon ni ddatblygu'r stori drwy weithdai, yn ogystal â darllen The Camille Stories gan Donna Haraway a thraethodau amrywiol ar themâu trawsnewidiadau yn y Mabinogi a theithiau cerdded drwy'r planhigfeydd pefrwydd yng ngorllewin Powys. Buon ni hefyd yn gweithio gyda'r clwb ffilm cydweithredol lleol ar gyfer pobl ifanc, Clwb Ffilm, a Stiwdio Dyfi.

**Jenő:** Rydw i wastad wedi mwynhau ffantasi poblogaidd a ffuglen hanesyddol, yn enwedig ar y sgrin. Er cymaint rwy'n ei fwynhau, mae gen i ddiddordeb hefyd mewn cwestiynu sut mae'r straeon yma'n dylanwadu ac yn cynnal cynrychiolaethau o'r gorffennol er mwyn parhau â hegemoni penodol yn y dyfodol mor effeithiol. Roeddwn i am ddefnyddio themâu ffantasi fel fframwaith i gyflwyno gwrth-naratifau sy'n cynnig dyfodol amgen. Drwy'r broses o greu ffilmiau ei hun, daeth y pethau damcaniaethol yma'n brofiadau diriaethol drwy weithdai a chysylltiadau â rhwydwaith o bobl ifanc greadigol yng nghefn gwlad.

I fi, mae yna ymdeimlad o gasglu a chadw, a phwysigrwydd cadw a dal gafael sy'n cael ei deimlo ar draws llawer o'r gweithiau yn yr arddangosfa. Jenő, mae dy ddioramau di yn teimlo fel archif. Beth oedd dy ddull o gasglu a chreu'r casgliad yma?

**Jenő:** Mae casglu gwrthrychau, deunyddiau a delweddau yn pylu'r llinell rhwng fy mhrofiad beunyddiol a fy allbwn creadigol. Roeddwn i am ddangos casgliad oedd yn cyfuno fy modelau a fy arbrofion fy hun a delweddau y des i o hyd iddyn nhw. Mae'r gwrthrychau yma'n eistedd ar gar sy'n cael ei dynnu â llaw sy'n moesoli'r casgliad drwy amser a lle. Dydw i ddim yn berchen ar gar, felly rwy'n aml yn cario neu'n symud pethau a deunyddiau yn ôl ac ymlaen i'r stiwdio. Mae'r gert yn wrthrych sydd yr un mor ymarferol ag yw'n un gerfluniol.

**Soniwch fwy wrthon ni am y gerddoriaeth a'r synau rydyn ni'n eu clywed yn y gosodwaith, 'Thalia' / 'Katniss'.**

**Iolo:** Mae'n defnyddio detholiad o glipiau o gyfres o sioeau radio ar Radio Dyfi, ochr yn ochr â recordiadau maes a fi'n canu. Maen nhw'n cael eu chwarae drwy seinyddion domestig fy ystafell wely a chregyn tro plastr. Mae recordiadau maes o'r môr, tu mewn i gregyn, yn creu sylfaen o ble i ymdrin â thristwch prosesu marwolaeth. Mae'r caneuon a'r dyfyniadau o sioeau radio ohonof i'n gweithio drwy restr chwarae ffrind ar Spotify ar ôl iddyn nhw farw. Maen nhw'n ymdrin â themâu amrywiol er enghraifft dysfforia, trawsrywioldeb a hunan-niweidio. Yn Is My Team Ploughing, mae'r canwr yn canu ac yn ateb rhwng y byw a'i

gariad a'i ffrind sydd wedi'i gladdu oddi tano. Roedd yn teimlo'n berthnasol fel sgwrs homo-necrotig rhwng y byw a'r marw. Mae'r ystafell wely yn dod yn lan ddatgymalog.

Roeddwn i'n byw yn Llundain, ac ar ôl marwolaeth doeddwn i methu ymdopi ag uchder y ddinas. Trawsnewidiodd yr adeiladau uchel roeddwn i'n cerdded oddi tanyn nhw yn fodiau gormesol a allai wasgu pobl allan o fodolaeth. Mae teimlad gwahanol i gael eich darostwng gan oruchafiaethau gwahanol wneuthurwyr. Mae gan y môr a'r mynyddoedd yr un grym yn hynny o beth, ond mae'n debycach i ostyngeiddrwydd Capitalocene neu Baleosöig. Roeddwn i'n teimlo bod yr olaf yn dod â mwy o foddhad. Felly, des i yn ôl i Gymru er mwyn cael hynny, mewn ffordd.

**Mae Watchtower yn sôn am guddio, anweledigrwydd ac amddiffyniad, gan gyfeirio at wylfeydd y Rhyfel Byd Cyntaf a gafodd eu creu i edrych fel coed. Ar raddfa wahanol mae eich dioramau hefyd yn chwarae gyda phethau gwirioneddol a'r haniaethol. Allwch chi ddweud mwy wrthon ni am eich diddordeb yn y rhyngol?**

**Jenő:** Rwy'n tybio taw dim ond pan fydd modd cytuno ar bwyntiau cyfeirio sefydlog y gellir adnabod y rhyngol. Ond beth sy'n sefydlog mewn gwirionedd? Mae ffenestri derbynioldeb yn llithro, mae tirweddau'n newid, mae natur yn anodd ei diffinio ac mae cynrychiolaeth yn dod yn realiti. Gyda Watchtower cefais fy nenu at y syniad o olygfeydd theatrig neu goed artiffisial yn dod yn rhan o'r dirwedd, a chreulondeb gwrthdaro. Cefais fy nenu hefyd at beth sy'n teimlo fel hen reddf i guddio mewn coeden wag.

**Cafodd yr arddangosfa yma ei chreu ar y cyd o'r cychwyn cyntaf. Sut brofiad oedd creu sioe gyda'ch gilydd?**

**Jenő:** Rydyn ni'n defnyddio setiau sgiliau gwahanol iawn wrth fynd ati i ymdrin â themâu a diddordebau ar y cyd. Mae llythrennedd digidol Iolo, ei ysgogiadau creadigol a'i ddyhead i fynd ati a chreu wedi fy herio i fod yn fwy uchelgeisiol ac yn hapusach i gymryd risgiau. Dros gyfnod y prosiect, rydyn ni wedi datblygu llawer gyda'n gilydd, fel artistiaid a ffrindiau. Rydyn ni wedi cael llawer o brofiadau tebyg ond hefyd gwahanol iawn – Iolo, a gafodd ei fagu yn Nwyrain Llundain a fi yng nghefn gwlad Cymru. Rwy'n credu bod y ddeialog yma'n amlwg iawn yn ein hallbwn cydweithredol. Fydden i ddim wedi ei wneud gyda neb arall!

**Iolo:** Mae gweithio gyda Jenő wedi bod yn gyffrous gan ein bod wedi ysgogi a chefnogi ein gilydd i wneud gwaith mwy eang ac uchelgeisiol. Mae cydweithio'n gallu bod yn anodd gan fod ganddon ni wahanol weledigaethau. Rydw i'n dal ychydig yn rhy agos at y prosiect i fyfyrio'n iawn ond rydyn ni wedi treulio llawer o amser gyda'n gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf! Rydyn ni wedi cael cyfnodau heriol ond yn y pen draw rydyn ni'n rhannu gweledigaeth a dyheadau ac wedi gallu dod o hyd i ateb. Rwy'n ddiolchgar iawn o fod wedi rhannu'r cyfle yma gyda'r artist talentog a'r ffrind gwych.